**Victoria Clark**
Prif Swyddog, Tai a Chymunedau
Chief Officer, Housing and Communities

CYNGOR Sir y Fflint
Flintshire COUNTY COUNCIL

Eich Cyf/ Your Ref
Ein Cyf/ Our Ref
Dyddiad/ Date 21 Ebrill 2026
Gofynner am/ Ask Dawn Kent
Rhif Union/ Direct Dial 01352 703526
Cymraeg/ Welsh 01267 224923

Annwyl Ddeiliad Contract

**<u>Hysbysiad o Amrywiad i'ch Contract Meddiannaeth Diogel</u>**

Ysgrifennwn atoch chi ynglŷn â newid pwysig i'ch Contract Meddiannaeth Diogel yn dilyn deddfwriaeth newydd sydd wedi'i chyflwyno gan Lywodraeth Cymru.

**Pam eich bod chi'n derbyn y llythyr hwn?**

Daw Deddf Hawliau Rhentwyr 2025 i rym ar **1 Mai 2026**. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn diwygio Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, er mwyn cyflwyno dau o delerau sylfaenol newydd, sy'n berthnasol i bob Contract Meddiannaeth Diogel yng Nghymru.

Bydd y telerau newydd sylfaenol hyn yn dod i rym ar **1 Mehefin 2026** ac yn dod yn rhan o'ch Contract Meddiannaeth Diogel presennol yn awtomatig. Y nod yw cryfhau'r mesurau diogelu ar gyfer deiliaid contract.

Mae'r llythyr hwn yn cynnwys **Hysbysiad Amrywio**, sy'n nodi'n ffurfiol sut mae'ch contract ysgrifenedig yn cael ei ddiweddaru.

**Beth sy'n newid?**

Mae dau o delerau sylfaenol newydd yn cael eu hychwanegu at eich Contract Meddiannaeth Diogel:

**1. Yr hawl i hawlio budd-daliadau**

Mae telerau newydd yn cael eu hychwanegu sy'n cadarnhau na ddylai'r Cyngor eich gwahardd chi rhag hawlio budd-daliadau (e.e. Credyd Cynhwysol neu'r Budd-dal Tai) os oes gennych chi hawl iddynt.

Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug. CH7 6NB
www.siryfflint.gov.uk
County Hall, Mold. CH7 6NB
www.flintshire.gov.uk

YN GADARN O BLAID · POBL ANABL
POSITIVE ABOUT · DISABLED PEOPLE

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Ymatebwn yn ddi-oed i ohebiaeth a dderbynnir drwy gyfrwng y Gymraeg.

We welcome correspondence in Welsh. We will respond to correspondence received in Welsh without delay.

Mae hyn yn ffurfioli'r egwyddor bresennol yn eich contract ac yn sicrhau eich bod chi'n cael eich diogelu rhag gwahaniaethu ar sail statws budd-daliadau.

**2. Yr hawl i blant fyw neu ymweld**

Mae telerau newydd yn cael eu hychwanegu i gadarnhau'r canlynol:

- Mae hawl i blant dan 18 oed fyw gyda chi neu ymweld â chi yn eich cartref.
- Ni ddylai'r Cyngor atal nac ymyrryd â'r hawl yma, oni bai bod rheswm cyfreithlon a chymesur i wneud hynny.

Mae hyn yn cryfhau'r mesurau diogelu o ran gwahaniaethu yn erbyn teuluoedd gyda phlant.

**Beth mae hynny'n ei olygu i mi?**

- Mae'r newidiadau hyn yn cael eu gwneud yn awtomatig – does dim rhaid i chi wneud unrhyw beth.
- Nid yw eich rhent, eich cyfrifoldebau na'ch daliadaeth ddiogel yn newid.
- Mae'r telerau newydd yn cael eu hychwanegu at eich contract presennol.
- Mae'r Hysbysiad Amrywio yn egluro ble mae'r telerau newydd o fewn y contract ysgrifenedig a sut mae'r rhifo wedi'i addasu o ganlyniad.

**Angen rhagor o wybodaeth?**

Os oes gennych chi unrhyw gwestiwn am y newidiadau yma neu angen help i ddeall yr Hysbysiad Amrywio, cysylltwch â'ch Swyddog Tai neu cysylltwch â mi yn defnyddio'r manylion isod.

Yn ddiffuant

**Dawn Kent**
Rheolwr Tai
Cyngor Sir y Fflint

Rhif ffôn: 07557 634266
E-bost: dawn.kent@flintshire.gov.uk